

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

DYDD MERCHER, 6ED IONAWR, 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd D. Price [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:

K.V. Broom, T.A.J. Davies, R. James (yn lle D. Jones), J.P. Jenkins, B.W. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, E.M.J.G. Schiavone, B. Thomas, E.G. Thomas a D.T. Williams

Aelodau Cyfetholedig:

A. Enoch - Rhiant-lywodraethwr
V. Kenny - Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd G. Davies - Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg & Phlant

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

S. Davies - Pennaeth Mynediad i Addysg
A. Rees - Pennaeth Cwricwlwm a Lles
A. Thomas - Pennaeth Gwasanaethau Addysg & Chynhwysiant
A. Davies - Prif Seicolegydd Addysg
S. Nolan - Cyfrifydd Grwp
M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Davies - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees – Cyfieithydd ar y Pryd
J. Corner – Swyddog Technegol

Rhith-Gyfarfod : 10.00 yb - 1.10 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen a D. Jones.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na unrhyw chwipiau pleidiau.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. LLESIANT A IECHYD MEDDWL STAFF A DISGYBLION - DIWEDDARIAD IONAWR 2021

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am lesiant ac iechyd meddwl staff a disgyblion o ganlyniad i bandemig Covid-19. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cymorth ychwanegol a'r mesurau ataliol a roddwyd ar

waith gan yr Adran Addysg a Phlant. Er ei fod yn canolbwyntio ar lesiant disgyblion a staff ysgolion, roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cyfeiriad at lesiant pobl ifanc eraill nad ydynt yn yr ysgol o bosibl ond sydd dal yn cael eu cynnwys o fewn maes gorchwyl yr Adran e.e. oedolion ifanc yn y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- O ran y cyfeiriad yn yr adroddiad bod costau'n cael eu hysgwyddo gan yr Adran Addysg, gofynnwyd i'r swyddogion a dderbynnir unrhyw gymorth gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr Adran yn ddiolchgar iawn am yr holl gymorth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, os yw'r swyddogion yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol, yn ychwanegol at yr hyn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yna'r Awdurdod Addysg Lleol sy'n gyfrifol am y gost honno. Ychwanegodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant y byddai unrhyw gymorth gan lywodraeth ganolog yn cael ei groesawu, fodd bynnag, ni wnaed unrhyw gyhoeddiad hyd yma;
- O ran nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n aros am gwrsela, gofynnwyd i'r swyddogion faint sydd ar y rhestr aros ac a oedd y nifer hwnnw wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod pob cais am gymorth yn cael ei flaenoriaethu ac y bydd unrhyw un sy'n dioddef lefel uchel o drallod yn cael ei weld yn gyntaf. Roedd swyddogion yn gwneud popeth posibl i leihau'r rhestr aros, fodd bynnag, nid argaeledd adnoddau oedd yr unig broblem gan fod hygyrchedd ac argaeledd y plant hefyd yn broblemau ar hyn o bryd. Er bod cymorth o bell ar gael, mae'n well gan rai plant aros nes bod sesiynau wyneb yn wyneb ar gael eto ac er bod hynny'n ddealladwy, mae hyn yn cael effaith ar y rhestr aros;
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod tair haen o blant yn achos dysgu o bell - y rhai sy'n hawdd eu cyrraedd, y rhai â heriau a'r rhai sydd â mwy o heriau a gofynnwyd i'r swyddogion pa mor fodlon oeddent eu bod yn gallu cyrraedd y plant hynny yn haenau 2 a 3. Dywedodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant wrth y Pwyllgor fod 95% o'r tîm bugeiliol yn treulio'u hamser ar 5% o'r disgyblion a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod y rhwydwaith cymorth yn ein hysgolion mor gryf ag y gall fod;
- Mynegwyd pryder y gallai rhai plant syrthio drwy'r rhwyd ac na fyddent yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Atgoffwyd y Pwyllgor o bwysigrwydd cael perthynas dda rhwng yr ysgol a'r rhiant o ran dysgu o bell. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor y gofynnwyd i ysgolion ar ddechrau'r cyfyngiadau symud cyntaf weithio gyda'r swyddogion i gategoreiddio pob disgybl yn goch, yn oren ac yn wyrdd o ran dysgu o bell fel y gellid canolbwyntio ar y disgyblion mwyaf agored i niwed yn y categori coch;
- O ran yr archwiliad a gynhaliwyd ar ddechrau'r pandemig, gofynnwyd i'r swyddogion pa fath o gymorth a ddarperir ar gyfer pob categori ac a yw hyn yn cael ei archwilio. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant fod ysgolion a swyddogion yn canolbwyntio ar y categori coch a disgwylir cyswllt dyddiol. O ran y categori oren, y nod yw codi ymwybyddiaeth o anghenion y plant a'r hyn y dylent fod yn ei wneud. Gwneir yn glir i ysgolion, os nad yw'r plant hyn ar-lein ac yn ymgysylltu, bod

- angen iddynt gymryd camau. Mae angen i blant yn y categori gwyrdd barhau â'u dysgu, fodd bynnag, mae angen herio'r disgyblion hyn hefyd;
- Gofynnwyd i'r swyddogion a oedd gan bob plentyn yr offer TG sydd ei angen i ddysgu o bell ac os felly, a yw pob ysgol (cynradd ac uwchradd) yn rhagweithiol o ran dysgu o bell. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod 1,600 o becynnau TG wedi'u dosbarthu ochr yn ochr â dongles i sicrhau mynediad i'r rhyngwyd lle bo angen;
 - Mynegwyd pryder ynghylch y gostyngiad yn nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref a gofynnwyd i'r swyddogion a oes gan y disgyblion hyn fynediad at ddysgu ar-lein. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor fod swyddogion yn pryderu am y nifer a oedd wedi dadgofrestru ar ddechrau'r pandemig ac maent wedi gweithio'n galed ar ail-ymgysylltu drwy fentrau gan gynnwys defnyddio dronau i ddangos y mesurau diogelwch sy'n cael eu rhoi ar waith mewn ysgolion a gwahodd rhieni i weld y mesurau drostynt eu hunain. Tynnodd sylw at y ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn cael lwfans o oddeutu £3,500 y pen ar gyfer pob disgybl, fodd bynnag, ni ddarperir lwfans ar gyfer y rhai sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref er bod staff wedi'u dynodi i'w cynorthwyo;
 - Er y croesawyd y gwaith sy'n cael ei wneud gyda staff a llinell gymorth gyfrinachol Llywodraeth Cymru, gofynnwyd am sicrwydd gan y swyddogion bod digon yn cael ei wneud i gefnogi staff. Dywedodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant wrth y Pwyllgor fod llawer o fentrau ar waith i gefnogi staff gan gynnwys sesiynau byw, rhithwir sy'n cynnig cyfle i staff ryngweithio â chydweithwyr o bob cwr o Gymru;
 - Mynegwyd pryder ynghylch y pwysau aruthrol sydd ar ein hathrawon a'n harweinwyr a'r ffaith, os nad yw ein hathrawon yn iach, nad oes gennym unrhyw obaith o agor ein hysgolion. Gofynnwyd i'r swyddogion a oedd modd cysylltu â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod athrawon yn cael eu blaenoriaethu o ran derbyn y brechlyn. Gofynnwyd i'r swyddogion a oedd modd argymhell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn llobio Llywodraeth Cymru i ofyn am i athrawon gael eu cynnwys yn uchel ar y rhestr o'r rhai i'w brechu. Cytunodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant i godi hyn gyda'r Bwrdd Gweithredol;
 - Cyfeiriwyd at y ffaith bod straen anferth wedi bod ar athrawon dros y misoedd diwethaf a gofynnwyd i'r swyddogion a oedd ganddynt unrhyw ddata i ddangos faint o staff sy'n absennol o'r gwaith oherwydd straen. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor nad oedd ganddo'r data gydag ef, ond byddai'n dosbarthu'r data i'r Pwyllgor drwy e-bost ar ôl y cyfarfod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

4.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;

4.2 bod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant yn codi'r mater o lobio Llywodraeth Cymru gyda'r Bwrdd Gweithredol i ofyn am i athrawon gael eu cynnwys yn uchel ar y rhestr o'r rhieni sydd i'w brechu.

5. HERIAU ARIANNOL SY'N WYNEBU YSGOLION

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn amlinellu'r heriau ariannol y mae ysgolion cynradd yn eu hwynebu. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y dyraniad cyllideb presennol o ran Ariannu Teg i ysgolion a'r ymdrechion i ddsbarthu'n deg i'r ystod o ysgolion cynradd i ddiwallu anghenion addysgol pob dysgwr yn Sir Gaerfyrddin. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu rhai dylanwadau cyd-destunol allweddol sy'n effeithio ar y model ariannu mewn ysgolion ar hyn o bryd.

Mae mynediad at addysg o ansawdd uchel yn hawl sylfaenol i bob plentyn a pherson ifanc ac ni ddylai ddibynnu ar ble rydych chi'n byw, ar eich cefndir cymdeithasol nac ar ba iaith rydych chi'n dysgu ynddi. Addysg dda yw un o'r congffeini pwysicaf y gall plentyn eu cael. Mae'n hanfodol bod digon o gyllid teg ar gael i sicrhau y gellir darparu'r addysg y mae ein plant a'n pobl ifanc yn ei haeddu mewn modd effeithiol a chyson.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd a oedd unrhyw ffigurau ar gael mewn perthynas â chyfanswm y gwariant ar addysg gan Awdurdodau Lleol. Eglurodd Cyfrifydd y Grŵp fod y data hwn yn cael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn a bod adroddiad dadansoddi ar gael. Ychwanegodd ei bod yn anodd cymharu data oherwydd bod pob Cyfarwyddiaeth Addysg ychydig yn wahanol ym mhob Awdurdod gan fod rhai yn cynnwys llyfrgelloedd, ac mewn rhai awdurdodau mae gwasanaethau ADY yn cael eu dirprwyo ond mewn rhai eraill fe'u cedwir yn ganolog;
- Gofynnwyd iddi am ddadansoddiad o'r tair elfen - dysgwyr, amddifadedd a theneurwydd, a dywedodd Cyfrifydd y Grŵp wrth y Pwyllgor y byddai'n dosbarthu'r wybodaeth hon drwy e-bost ar ôl y cyfarfod;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr adroddiad wedi tynnu sylw at yr heriau sylweddol yn ein hysgolion a nodwyd na allwn barhau fel yr ydym a theimlwyd ei bod bellach yn bryd cynnal trafodaethau ystyrlon a phwyllog am hyn. Cytunodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant ei bod yn bryder bod rhai o'n hysgolion yn hen, mewn cyflwr gwael ac nad ydynt yn addas i'r diben, a dyna pam yr oedd y Rhaglen Moderneiddio Addysg mor bwysig;
- Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg a hefyd ynghylch y ffordd y mae rhai ysgolion wedi ymdopi'n dda dros y flwyddyn ddiwethaf ond mae rhai wedi gwaethygu'n sylweddol. Eglurodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant fod capasiti yn broblem a phan gaiff prosiect ei gynnwys yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg, mae hynny oherwydd materion capasiti. Ychwanegodd y Pennaeth Mynediad i Addysg fod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gynllunio lleoedd mewn ysgolion ac felly roedd yn hanfodol cyflenwi'r galw. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol adolygu pob ysgol sydd â dros 10% o leoedd gwag;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y Pwyllgor wedi bod yn pryderu am lefel y diffygion mewn ysgolion ac roedd yr adroddiad yn ddefnyddiol o ran dangos y rhesymau a'r manylion y tu ôl i hyn. Gofynnwyd i swyddogion a fyddai'n

bosibl derbyn adroddiad tebyg ar gyfer ysgolion uwchradd a chytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant y byddai'n cyflwyno adroddiad ar y mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol;

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod gan gyfran sylweddol o'r holl ysgolion ddisgyblion o'r tu allan i'w dalgylch. Rhoddodd y Pennaeth Mynediad i Addysg wybod i'r Pwyllgor mai'r bwriad oedd cynnal adolygiad o bob dalgylch, ond ni fu hyn yn bosibl gan fod y rhan fwyaf o'i dîm wedi cael eu hadleoli i weithio mewn adrannau eraill oherwydd y pandemig. Ychwanegodd y bydd yr adolygiad o ddalgylchoedd yn cael ei gwblhau cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

[SYLWER: Am 12.55pm, wrth ystyried yr eitem uchod, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers bron tair awr, **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ohirio ystyried y rheolau sefydlog er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.]

6. ADRODDIAD TERFYNOL Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN - FFORMIWLA ARIANNU ADY

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod yn cynnig gohirio rhoi ystyriaeth i'r adroddiad hwn tan y cyfarfod nesaf er mwyn gallu cynnwys gwybodaeth ychwanegol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried yr adroddiad tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

7. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Eglurwyd i'r Pwyllgor pam na chyflwynwyd yr adroddiad craffu canlynol a nodwyd y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf:-

- Cymorth addysg i ddysgwyr sy'n agored i niwed

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r wybodaeth.

8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r wybodaeth.

9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR 23AIN TACHWEDD, 2020

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2020 yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD